# Ymgynghoriad ar 11 Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Ar y Cyd Arfaethedig y Deyrnas Unedig ar gyfer Stociau Pysgod Gwely'r Môr

Tachwedd 2025
Fersiwn: ymgynghoriad cyhoeddus

## Y Gyfarwyddiaeth Forol

E-bost: FMPs@gov.scot

# Ymgynghoriad ar 11 Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Ar y Cyd Arfaethedig y Deyrnas Unedig ar gyfer Stociau Pysgod Gwely'r Môr

20 Tachwedd 2025

Annwyl Ymgynghorai,

Mae'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) fel y'i diwygiwyd, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig 2020 (y Ddeddf), yn amlinellu sut y bydd awdurdodau pysgodfeydd y Deyrnas Unedig (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon) yn paratoi a chyhoeddi 43 Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (FMP) erbyn 2028.

Llywodraeth yr Alban yw'r awdurdod cydlynu ar gyfer 21 FMP, a'r dyddiad cyflawni yw 2026. Mae 11 o'r 21 FMP ar gyfer stociau pysgod gwely'r môr.

Yr 11 FMP Gwely'r Môr sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn, sy'n dwyn ynghyd tystiolaeth ynglŷn â chyflwr y stociau pysgod perthnasol ac yn amlygu'r polisïau a'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol i reoli ein pysgodfeydd mewn ffordd effeithiol a chynaliadwy. Maen nhw'n amlinellu'r weledigaeth ar gyfer rheoli'r pysgodfeydd gwely'r môr, yn ogystal â pholisïau a chamau gweithredu perthnasol y bwriedir iddynt helpu i wireddu'r weledigaeth honno.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i chi helpu i ffurfio a dylanwadu ar ddyfodol polisi rheoli pysgodfeydd gwely'r môr yn y Deyrnas Unedig ac mae'n ychwanegu at ymgysylltiad blaenorol ag ystod eang o randdeiliaid ledled y Deyrnas Unedig. Mae tair rhan i'r arolwg ymgynghori:

1. Manylion personol a chyfrinachedd (gofynnol)
2. Cwestiynau ar yr 11 FMP Gwely'r Môr, yr Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r Asesiad Effaith Busnes a Rheoleiddiol
3. Adborth Ymgyngoreion ar yr Arolwg Ar-lein (gofynnol)

Bydd angen i chi ymateb i'r cwestiynau rydych eisiau eu hateb yn unig. Mae cymysgedd o gwestiynau cyffredinol a phenodol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r holl ymatebwyr gwblhau'r adrannau 'Adborth Ymgyngoreion ar yr Arolwg Ar-lein' a 'manylion personol a chyfrinachedd' gofynnol cyn y gallwch gyflwyno'ch ymateb i'r arolwg ar-lein. Croesawn unrhyw wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r gwaith hwn. Gallwch ei chyflwyno'n uniongyrchol trwy FMPs@gov.scot.

Mae'r dogfennau canlynol ar gael ar Citizen Space:

- Dogfen ymgynghori

- FMP Arfaethedig Hadog Ysgafell y Gogledd
- FMP Arfaethedig Hadog Iwerydd
- FMP Arfaethedig Gwyniad Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel
- FMP Arfaethedig Gwyniad Môr Arfordir Gorllewin yr Alban
- FMP Arfaethedig Cythraul y Môr Ysgafell y Gogledd
- FMP Arfaethedig Lleden Fair Ysgafell y Gogledd
- FMP Arfaethedig Chwitlyn Glas Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban
- FMP Arfaethedig Cegddu Ysgafell y Gogledd
- FMP Arfaethedig Honos Ysgafell y Gogledd
- FMP Arfaethedig Penfras Iwerydd
- FMP Arfaethedig Penfras Ysgafell y Gogledd
- Adroddiad Amgylcheddol Strategol (SEA)
- Asesiad Effaith Busnes a Rheoleiddiol (BRIA)
- Cyngor Cadwraeth Natur gan NatureScot a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) ar gyfer FMPau Gwely'r Môr
- Crynodebau Gweithredol Cyngor Cadwraeth Natur gan Natural England a'r JNCC (dyfroedd Lloegr yn unig)

# Ymatebion

I gyflwyno'ch ymateb i'r ymgynghoriad, cwblhewch yr holiadur ymgynghori a ddarperir trwy Citizen Space (offeryn ymgynghori ar-lein yw Citizen Space). Os oes arnoch angen copi o'r ymgynghoriad, cysylltwch â ni trwy FMPs@gov.scot.

Gellir anfon ymatebion, gwybodaeth ychwanegol, neu ddogfennau at:

Ymgynghoriad – 11 Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Ar y Cyd Arfaethedig y Deyrnas Unedig ar gyfer Stociau Pysgod Gwely'r Môr
Y Tîm FMP
Llywodraeth yr Alban
Cei Victoria
Ardal 1 B Gogledd
Caeredin
EH6 6QQ

Dylid derbyn ymatebion erbyn 23:59 ar 11 Mawrth 2026.

Yn gywir,

Y Tîm FMP
Y Gyfarwyddiaeth Forol
Llywodraeth yr Alban
FMPs@gov.scot

# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 6

Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd Ar y Cyd y Deyrnas Unedig ar gyfer stociau pysgod gwely'r môr. 6

Cefndir: Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd ........ 9

Pam rydym yn cyhoeddi FMPau? ........ 9

Beth yw FMPau? ........ 9

Sut mae FMPau yn gweithio ........ 9

FMPau a Gwladwriaethau Morol eraill ........ 10

Y dull o ddatblygu'r FMPau ........ 10

Pam rydym yn ymgynghori ar yr holl FMPau gwely'r môr a arweinir gan yr Alban yn rhan o un ymgynghoriad? ........ 10

Crynodeb o'r FMPau gwely'r môr a arweinir gan yr Alban ........ 11

Statws y stociau sydd dan sylw yn 11 FMP gwely'r môr ar y cyd y Deyrnas Unedig ........ 13

Polisïau a chamau gweithredu ar gyfer rheoli pysgodfeydd gwely'r môr y Deyrnas Unedig ........ 13

FMP Hadog Ysgafell y Gogledd – stoc Categori 1 ........ 15

FMP Hadog Iwerydd (Rockall) – stoc Categori 1 ........ 15

FMP Gwyniad Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel – stoc Categori 1 ........ 16

FMP Gwyniad y Môr Arfordir Gorllewin yr Alban – stoc Categori 1 ........ 16

FMP Maelgi/Cythraul Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban – stoc Categori 1 ........ 17

FMP Lleden Fair Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban (stoc Categori 1 a Chategori 2 (yn ardal 6.b yn unig) ........ 17

FMP Chwitlyn Glas Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban – stoc Categori 1 ........ 18

FMP Cegddu Ysgafell y Gogledd – stoc Categori 1 ........ 18

FMP Honos Ysgafell y Gogledd – stoc Categori 3 ........ 19

FMP Penfras Iwerydd (Rockall) – stoc Categori 6 ........ 20

FMP Penfras Ysgafell y Gogledd – stoc Categori 1 (gyda strwythur stoc cymhleth) ........ 21

Gweithredu ........ 23

Ystyriaethau cyffredinol ........ 23

Asesiadau Effaith ........ 24

Adroddiad Amgylcheddol ........ 24

Ymateb i'r ymgynghoriad hwn ........ 25

Hysbysiad Preifatrwydd Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd Gwely'r Môr Ar y Cyd y Deyrnas Unedig ........ 27

Hyd yr ymgynghoriad ........ 31

Camau nesaf y broses ........ 31

Sylwadau a chwynion ........ 31
Proses ymgynghori Llywodraeth yr Alban ........ 31

# Cyflwyniad

Mae gan y Deyrnas Unedig rai o'r adnoddau bwyd môr gwyllt gorau yn y byd. Mae ein stociau pysgod yn ased cyhoeddus sy'n cynhyrchu bwyd ac yn creu swyddi, yn ogystal â darparu cyfleoedd hamdden mewn sector sydd ag ymdeimlad cryf o hunaniaeth a balchder i'w cymunedau. Mae'r stociau pysgod hyn hefyd yn rhan allweddol o'n hecosystemau morol.

Mae llawer o'n stociau pysgod dan bwysau amrywiol o sawl tu, fel pysgota a'r newid yn yr hinsawdd. Er bod pysgota'n gallu arwain at lawer o fuddion economaidd-gymdeithasol, mae hefyd yn creu effaith ar ein hamgylchedd morol, er enghraifft trwy sgil-ddalfa ddamweiniol neu effaith offer pysgota ar wely'r môr. Felly, mae'n bwysig ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol pysgota fel rhan o reolaeth gyffredinol ein pysgodfeydd a'r amgylchedd morol.

Mae'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) fel y'i diwygiwyd, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Pysgodfeydd y Deyrnas Unedig 2020 (y Ddeddf), yn amlinellu sut y bydd awdurdodau pysgodfeydd y Deyrnas Unedig (Defra, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon) yn paratoi a chyhoeddi 43 Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (FMP) erbyn 2028.

Mae'r cynlluniau'n dwyn ynghyd tystiolaeth ynglŷn â chyflwr y stociau pysgod perthnasol ac yn amlygu'r polisïau a'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol i reoli ein pysgodfeydd mewn ffordd effeithiol a chynaliadwy. Mae'r FMPau yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer rheoli'r pysgodfeydd gwely'r môr, yn ogystal â pholisïau a chamau gweithredu y bwriedir iddynt helpu i wireddu'r weledigaeth honno. Mae'n rhaid i'r cynlluniau hefyd ystyried rhwymedigaethau cyfreithiol ehangach perthnasol.

Mae cyfleoedd ar gyfer twf os caiff ein diwydiannau pysgota a bwyd môr eu rheoli'n gynaliadwy, i sicrhau bod cyfleoedd pysgota'n cael eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn awyddus i barhau i weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid wrth i ni ddatblygu a chyflawni ein cynlluniau ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn y Deyrnas Unedig.

Gellir gweld y rhestr lawn o FMPau sy'n cael eu paratoi gan bob un o'r awdurdodau pysgodfeydd yn Atodiad A i'r JFS (a ddiwygiwyd ym mis Rhagfyr 2024).

# Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd Ar y Cyd y Deyrnas Unedig ar gyfer stociau pysgod gwely'r môr

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod yr awdurdod neu'r awdurdodau perthnasol yn paratoi a chyhoeddi FMPau yn unol â'r rhestr a'r amserlen a gynhwysir yn y JFS. Llywodraeth

yr Alban yw’r awdurdod cydlynu ar gyfer 11 FMP gwely’r môr ac mae wedi cydlynu’r broses o baratoi’r cynlluniau hyn ar ran yr awdurdodau eraill perthnasol.[1]

Yr awdurdodau perthnasol ar gyfer y grŵp hwn o FMPau yw Llywodraeth yr Alban, yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA), Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Llywodraeth Cymru. Paratowyd a chyhoeddwyd y cynlluniau ar y cyd gan yr awdurdodau perthnasol at ddibenion y Ddeddf.

Mae’r ddogfen ymgynghori hon yn gwahodd safbwyntiau ar yr FMPau gwely’r môr canlynol:

- **FMP Hadog Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban, y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel FMP Hadog ‘Ysgafell y Gogledd’**
- **FMP Hadog Iwerydd**
- **FMP Gwyniad Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel**
- **FMP Gwyniad Môr Arfordir Gorllewin yr Alban**
- **FMP Maelgi/Cythraul Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban, y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel ‘FMP Cythraul y Môr Ysgafell y Gogledd’**
- **FMP Lleden Fair Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban, y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel ‘FMP Lleden Fair Ysgafell y Gogledd’**
- **FMP Chwitlyn Glas Môr y Gogledd ac Arfordir Gogledd yr Alban**
- **FMP Cegddu Ysgafell y Gogledd**
- **FMP Honos Ysgafell y Gogledd**
- **FMP Penfras Iwerydd**
- **FMP Penfras Ysgafell y Gogledd**

Mae asesiad effaith busnes a rheoleiddiol (BRIA) rhannol wedi cael ei ddatblygu hefyd, sy’n disgrifio effaith economaidd ddisgwyliedig yr FMPau ar y sector pysgota a busnesau cysylltiedig. Byddem yn croesawu tystiolaeth economaidd ychwanegol i ddiweddaru ein hasesiad.

Mae Adroddiad Amgylcheddol sy’n disgrifio effeithiau amgylcheddol tebygol gweithredu’r polisïau a’r camau gweithredu yn yr 11 FMP gwely’r môr wedi cael ei gynhyrchu hefyd, fel sy’n ofynnol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004.

Mae’r ymgynghoriad hwn yn arbennig o berthnasol i:

- Unigolion, grwpiau, neu fusnesau sy’n ymwneud â’r sectorau pysgota, bwyd môr, neu ddyframaethu, gan gynnwys unigolion, grwpiau neu fusnesau o’r Deyrnas Unedig neu o’r tu allan i’r Deyrnas Unedig sy’n pysgota yn nyfroedd y Deyrnas Unedig,
- Unigolion, grwpiau neu fusnesau eraill sy’n defnyddio’r môr, er enghraifft diwydiannau morol fel ynni adnewyddadwy alltraeth a chyrff hwylio, a

[1] Rhoddir y diffiniad o “awdurdod cydlynu” yn Atodiad A (tud. 55) y JFS, sef:- “**Awdurdod Cydlynu**: Yr awdurdod polisi pysgodfeydd a fydd yn cydlynu paratoi a rheoli’r cynllun ar ran yr awdurdodau polisi pysgodfeydd eraill gan weithredu ar y cyd”.

- Grwpiau diddordeb cenedlaethol a lleol fel sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol a hamdden, a ffederasiynau diwydiant.

# Cefndir: Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd

## Pam rydym yn cyhoeddi FMPau?

Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y ddarpariaeth i baratoi a chyhoeddi FMPau. Bwriedir i FMPau helpu i warchod stociau pysgod a, lle bo angen, adfer stociau pysgod. Bydd hyn, yn ei dro, yn cefnogi diwydiant pysgota cynaliadwy ac yn diogelu'r amgylchedd.

## Beth yw FMPau?

Mae FMPau yn ddogfennau a baratoir ac a gyhoeddir o dan y Ddeddf sy'n amlinellu polisïau a luniwyd i adfer neu gynnal stociau perthnasol o bysgod môr ar lefelau cynaliadwy. Cynlluniau gweithredu wedi'u seilio ar dystiolaeth ydynt sy'n helpu i gyflawni pysgodfeydd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r FMPau yn gynlluniau hirdymor y mae'n rhaid eu hadolygu ac, os oes angen, eu diwygio o leiaf unwaith bob chwe blynedd. Maen nhw'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer y bysgodfa (neu'r pysgodfeydd), ynghyd â'r polisïau a'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol i gyflawni'r weledigaeth hon. Lle bo'n briodol, fe allai FMPau nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â materion ehangach a amlygwyd yn ystod y broses o'u datblygu, fel ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

## Sut mae FMPau yn gweithio

Mae rheoli pysgodfeydd yn gymhwysedd sydd wedi'i ddatganoli, a reolir ar hyn o bryd trwy reoliadau, is-ddeddfau, amodau trwydded a mesurau gwirfoddol. Fe allai FMPau arwain at newidiadau i'r mesurau rheoli hyn.

Mae gofyniad cyfreithiol ar Awdurdodau Pysgodfeydd Cenedlaethol (sef Llywodraeth yr Alban, Defra, y Sefydliad Rheoli Morol (MMO), DAERA a Llywodraeth Cymru yn yr achos hwn) i weithredu yn unol â'r polisïau a amlinellir yn y cynllun a byddant yn gweithio gydag ystod o sefydliadau a rhanddeiliaid perthnasol i weithredu'r camau gweithredu a gynhwysir yn y cynlluniau.

Mae FMPau yn amlygu ystod o bolisïau a chamau gweithredu. Bwriedir i gynlluniau fod yn addasol a datblygu dros amser wrth i dystiolaeth ychwanegol gael ei chasglu, a mesurau gael eu gweithredu. Er bod pob FMP yn canolbwyntio ar stoc(iau) penodol, bydd angen eu hystyried yn aml mewn modd cyfannol, yn enwedig pan fydd rhyngweithiadau a chysylltiadau stoc cryf rhwng gwahanol bysgodfeydd.

O dan adran 8(1) y Ddeddf, yn ogystal â'r adolygiad chwe blynedd (neu'n gynt os bydd angen) o FMPau, gellir disodli neu ddiwygio FMP unrhyw bryd yn dilyn ymgynghoriad, sy'n golygu y gellir cadw'r cynllun yn gyfredol.

Bwriedir i gamau gweithredu FMP gael eu gweithredu ar hyd eu hoes i ddylanwadu ar sut mae pysgodfeydd yn cael eu rheoli. Felly, fe allai gymryd peth amser i fuddion ddod i'r amlwg o ran gwella cynaliadwyedd stociau a physgodfeydd.

## FMPau a Gwladwriaethau Morol eraill

Mae'r FMPau yn darparu fframwaith hirdymor ar gyfer rheoli gweithgarwch pysgota, ac mae'r polisïau a'r camau gweithredu'n canolbwyntio ar sicrhau cynaliadwyedd stoc ac amgylchedd morol iach trwy barhau â'r dull rheoli presennol a, phan fydd angen, darparu gwelliannau priodol. Yn rhan o hyn, trafodaethau rhyngwladol ynglŷn â physgodfeydd yw un o'r dulliau sy'n helpu i reoli, cynnal a chadw ac adfer stociau pysgod. Mae'r polisïau a'r camau gweithredu yn yr FMPau yn adlewyrchu ac yn parchu'r trefniadau rheoli rhyngwladol sydd ar waith ar gyfer pob un o'r FMPau perthnasol sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn.

Mae'r Deyrnas Unedig, gan gynnal ymreolaeth reoleiddiol dros ei physgodfeydd, wedi ymrwymo i weithio gyda Gwladwriaethau Morol eraill i sicrhau bod adnoddau pysgodfeydd a rennir yn cael eu rheoli'n gynaliadwy – a pharhau i ddatblygu ein perthynas waith gadarnhaol. Trwy ymgynghoriadau blynyddol â'r Undeb Ewropeaidd a Gwladwriaethau Arfordirol eraill, yn ogystal â thrafodaethau mewn fforymau amlochrog a dwyochrog, mae'r Deyrnas Unedig yn ceisio cyflawni amcanion y Ddeddf.

Bydd mesurau rheoleiddiol i weithredu FMPau yn berthnasol i bob llong sy'n pysgota yn nyfroedd perthnasol y Deyrnas Unedig. Bydd y Deyrnas Unedig yn hysbysu'r Undeb Ewropeaidd a Gwladwriaethau Arfordirol eraill o unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar longau'r Undeb Ewropeaidd.

## Y dull o ddatblygu'r FMPau

Ein nod yw bod FMPau, a ddatblygir mewn modd cydweithredol a thryloyw, yn berthnasol i'r bysgodfa neu'r pysgodfeydd dan sylw ac yn cefnogi dull ymarferol a hyblyg o reoli pysgodfeydd wedi'i deilwra i rywogaethau, lleoliadau, a gweithgareddau pysgota.

Mae FMPau yn cael eu datblygu ledled y Deyrnas Unedig mewn gwahanol ffyrdd, gan ganiatáu i ni roi cynnig ar ddulliau newydd a phrofi'r ffordd orau o ddatblygu'r cynlluniau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Rydym wedi dysgu gwersi gwerthfawr o ddatblygu FMPau cyntaf Defra yn 2023 ac wedi cymhwyso'r rhain i'r ymgynghoriad hwn.

# Pam rydym yn ymgynghori ar yr holl FMPau gwely'r môr a arweinir gan yr Alban yn rhan o un ymgynghoriad?

Mae pysgod gwely'r môr yn rhywogaeth fasnachol bwysig yn nyfroedd y Deyrnas Unedig. O ran y rhywogaethau gwely'r môr sydd dan sylw yn y set hon o FMPau, daeth y glaniadau gan fflyd y Deyrnas Unedig i'r Deyrnas Unedig i gyfanswm o £183 miliwn yn 2024.

O 21 FMPau ar y cyd y Deyrnas Unedig sy'n cael eu cydlynu gan Lywodraeth yr Alban, cynigir 11 ar gyfer rhywogaethau gwely'r môr ac fe'u datblygwyd ar y cyd â'r awdurdodau eraill perthnasol, gwyddonwyr y Deyrnas Unedig, rheoleiddwyr, cyrff cadwraeth natur statudol (SNCBau) a rhanddeiliaid. Paratowyd y cynlluniau at ddibenion y Ddeddf ac yn unol â'r polisïau a'r cynigion a amlinellir yn y JFS.

Mae pysgodfeydd gwely'r môr yn y Deyrnas Unedig yn gymhleth o ganlyniad i natur gymysg y pysgodfeydd hyn a'r ystod o stociau pysgod sy'n gysylltiedig, gan fod stociau pysgod gwely'r môr yn aml yn cael eu dal ochr yn ochr â'i gilydd. Er bod y stociau hyn yn destun FMPau ar wahân, maen nhw'n rhannu llawer o nodweddion, a thebygrwydd o ran ble a sut maen nhw'n cael eu pysgota. Felly, mae'n rhesymol ystyried pob FMP ar gyfer pysgod gwely'r môr mewn un ymgynghoriad.

Yn ogystal, mae llawer o'r camau gweithredu rheoli a'r materion a ystyrir yn rhan o'r FMPau hyn yn berthnasol ar draws pysgodfeydd gwely'r môr, ac felly nid yw'r camau gweithredu sy'n ofynnol yn benodol i un stoc neu bysgodfa yn aml.

Mae'r polisïau a'r camau gweithredu yn 11 FMP gwely'r môr ar y cyd y Deyrnas Unedig yn amlinellu sut y bydd y stociau hyn yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n gyson â'r nod ehangach o gyflawni amcanion pysgodfeydd a amlinellir yn y Ddeddf, a'r polisïau a gynhwysir yn y JFS ac ymrwymiadau deddfwriaethol eraill, ac yn eu cefnogi.

Mae'r cynlluniau hyn hefyd yn amlygu bylchau perthnasol mewn tystiolaeth ac yn ystyried ymchwil ynglŷn â'r rhywogaethau sydd dan sylw i wella rheolaeth bresennol a sicrhau bod cynaliadwyedd yn parhau.

Maen nhw'n disgrifio trosolwg o'r pysgodfeydd presennol ar gyfer rhywogaethau gwely'r môr yn nyfroedd y Deyrnas Unedig, ac yn dwyn ynghyd mesurau rheoli a rheoliadau cyfredol yn ogystal â darparu gwybodaeth am asesiadau stoc sydd ar gael, cynnyrch cynaliadwy mwyaf (MSY) a bioleg stoc. Mae'r polisïau ar bob stoc a'r cysylltiadau â pholisïau cysylltiedig wedi cael eu hamlygu a'u trafod yn adrannau priodol yr FMPau.

# Crynodeb o'r FMPau gwely'r môr a arweinir gan yr Alban

Mae ein holl stociau pysgod yn gymhleth eu rheoli. Y weledigaeth ar gyfer 43 FMP y Deyrnas Unedig yw bod y pysgodfeydd sydd dan sylw ynddynt yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, er mwyn helpu i sicrhau bod stociau'n cael eu cynnal uwchben lefelau

biomas sy’n gallu cynhyrchu MSY ac amlygu meysydd a allai arwain at fireinio dulliau rheoli yn y dyfodol.

Mae 11 FMP gwely’r môr ar y cyd y Deyrnas Unedig sy’n destun yr Ymgynghoriad hwn wedi cael eu datblygu o fewn cyd-destun ehangach y Cynlluniau Morol sydd ar waith yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru (o ran Cegddu Ysgafell y Gogledd yn unig). Rhoddir ystyriaeth hefyd i’r amcanion a’r egwyddorion a amlinellir yn y TCA wrth ystyried mesurau. Dylid nodi hefyd bod yr holl stociau gwely’r môr sydd dan sylw yn yr FMPau hyn yn cael eu rheoli ar y cyd, ac felly bod cyfleoedd pysgota cyffredinol yn cael eu pennu trwy drafodaethau rhyngwladol. Mae’r stociau hyn hefyd yn ddarostyngedig i wahanol fesurau rheoli mewn gwahanol ardaloedd o’r môr gan Wladwriaethau Arfordirol unigol.

Gall iechyd stociau pysgod newid dros amser, ac mae Cyngor Rhyngwladol Archwilio’r Môr (ICES) yn darparu cyngor newydd bob blwyddyn ar gyfer y rhan fwyaf o stociau. Mae’r awdurdodau polisi pysgodfeydd yn adolygu stociau’n flynyddol, ac mae’r dull o bennu cyfleoedd pysgota’n ystyried yr egwyddorion a amlinellir yn y cynlluniau amlflwydd perthnasol (MAPau), a’r amcan cynaliadwyedd yn y Ddeddf. Felly, mae’n bwysig nodi bod yr FMPau hyn yn cael eu cynhyrchu ar adeg benodol a’u bod wedi’u seilio ar y dystiolaeth a oedd ar gael bryd hynny. Cyn belled ag y bo’n bosibl, mae’r dull rheoli a amlinellir yn yr FMPau drafft yn rhoi hyblygrwydd i reolwyr pysgodfeydd addasu i amgylchiadau sy’n newid. Pe byddai cyngor ICES yn newid yn sylweddol, neu amgylchiadau perthnasol eraill yn newid ar ôl cyhoeddi’r FMPau drafft yn yr ymgynghoriad hwn, bydd camau’n cael eu cymryd, fel y bo angen, i addasu’r FMPau cyn eu cyhoeddi’n derfynol.

Mae’r rhan fwyaf o FMPau gwely’r môr a gynhwysir yn yr Ymgynghoriad hwn wedi’u dosbarthu’n stociau Categori 1 o dan fframwaith asesu ICES (stociau ag asesiadau meintiol), mae rhai stociau’n perthyn i Gategori 2 (stociau ag asesiadau a rhagolygon dadansoddol a drinnir yn ansoddol yn unig, fel lleden Fair Ysgafell y Gogledd yn ardal 6.b), stociau Categori 3 (stociau y mae asesiadau arolwg ar eu cyfer yn dangos tueddiadau, fel honos Ysgafell y Gogledd) a Chategori 6 (stociau glaniadau dibwys a stociau y delir niferoedd bach ohonynt fel sgil-ddalfa, megis penfras Iwerydd). Mae hyn yn golygu bod y sylfaen dystiolaeth sy’n cefnogi’r broses o reoli’r pysgodfeydd perthnasol yn gallu amrywio o un fath o stoc i’r llall.

Ar gyfer rhai stociau nad ydynt yn cael eu pysgota ar lefelau cynaliadwy ar hyn o bryd, amlinellir camau gweithredu i wella’r dull rheoli a’u hadfer i lefelau cynaliadwy. Mae’n bwysig cydnabod bod llawer o’r stociau sydd dan sylw yn y set hon o FMPau yn cael eu rheoli ar lefelau cynaliadwy (gweler yr adran ar statws stociau isod) ac, o ganlyniad, bwriedir i’r camau gweithredu a gynhwysir yn y cynlluniau ar gyfer y stociau penodol hyn gynnal y sefyllfa hon.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd camau gweithredu unigol yn yr FMPau yn cysylltu’n uniongyrchol ag un neu fwy o’r amcanion pysgodfeydd yn y Ddeddf. Mae FMPau yn fodd o helpu i gyflawni’r amcanion pysgodfeydd, ond nid yr unig gyfrwng polisi sydd ar gael i wneud hyn.

Mae'r awdurdodau polisi pysgodfeydd hefyd wedi ystyried cyngor cadwraeth a gafwyd gan yr SNCBau ac wedi cynnwys yr allbynnau o'r gwaith hwnnw wrth ystyried meysydd lle gallai fod angen camau gweithredu polisi.

## Statws y stociau sydd dan sylw yn 11 FMP gwely'r môr ar y cyd y Deyrnas Unedig

Mae'r rhestr isod wedi'i seilio ar fframwaith asesu ICES a oedd ar gael ar adeg llunio'r FMPau:

- Hadog Ysgafell y Gogledd – Categori 1*
- Hadog (Rockall) Iwerydd – Categori 1*
- Gwyniad Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel – Categori 1*
- Gwyniad Môr Arfordir Gorllewin yr Alban – Categori 1*
- Cythraul y Môr Ysgafell y Gogledd – Categori 1*
- Lleden Fair Ysgafell y Gogledd – Categori 1* a Chategori 2* (yn ardal 6.b yn unig)
- Chwitlyn Glas Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban – Categori 1*
- Cegddu Ysgafell y Gogledd – Categori 1*
- Honos Ysgafell y Gogledd – Categori 3 **
- Penfras Iwerydd (Rockall) – Categori 6 **
- Penfras Ysgafell y Gogledd – Categori 1 ond gyda strwythur stoc cymhleth ***

(* ) Mae lefel uchel o ddata ar gael am y stoc ac mae digon o dystiolaeth wyddonol ar gael er mwyn i'r awdurdodau polisi pysgodfeydd perthnasol wneud asesiadau MSY blynyddol ar gyfer y stoc hon. Mae hyn yn cynnwys stociau ag asesiadau meintiol (Categori 1) neu ansoddol (Categori 2).

(**) Nid oes gan yr awdurdodau polisi pysgodfeydd perthnasol ddigon o dystiolaeth i asesu cyfeirbwyntiau MSY ar gyfer y stoc, er bod y cyngor a'r dull rheoli'n dilyn fframwaith ICES ar gyfer Categori 3 (stociau y mae asesiadau arolwg ar eu cyfer yn dangos tueddiadau) neu Gategori 6 (stociau glaniadau dibwys a stociau y delir niferoedd bach ohonynt fel sgil-ddalfa).

(***) Mae lefel uchel o ddata ar gael am y stoc berthnasol, ond mae strwythur y stoc yn gymhleth o hyd ac mae'n anodd rheoli'r stoc.

# Polisïau a chamau gweithredu ar gyfer rheoli pysgodfeydd gwely'r môr y Deyrnas Unedig

Mae'r FMPau drafft, gan gynnwys eu polisïau a'u camau gweithredu unigol, yn cael eu hystyried yn yr ymgynghoriad hwn a byddant yn cael eu blaenoriaethu'n briodol, ar ôl cyhoeddi, i sicrhau allbynnau realistig a mesuradwy. Fe'u lluniwyd i fodloni

gofynion adran 6(3) y Ddeddf (polisïau 1 a 2) ac yn unol â'r polisïau a amlinellir yn y JFS (polisïau 3, 4, 5 a 6).

Ar gyfer pob polisi, mae'r cynlluniau'n amlinellu:

- sail resymegol
- camau gweithredu parhaus, tymor byr a thymor hwy
- sut mae'r camau gweithredu'n cefnogi'r broses o gyflawni'r amcanion pysgodfeydd.

Mae pob polisi'n disgrifio'r canlyniad yr anelir ato, a'r camau gweithredu a fwriedir i helpu i gyflawni'r canlyniadau hynny.

Mae mwyafrif yr FMPau gwely'r môr a ystyrir yn y ddogfen ymgynghori hon yn cynnwys yr un polisïau oherwydd eu natur gysylltiedig gan fod rhywogaethau sy'n cael eu dal yn yr un bysgodfa gymysg ac oherwydd bod y stociau sydd dan sylw ynddynt yn cael eu pysgota ar lefelau cynaliadwy ar hyn o bryd ac mae digon o dystiolaeth ar gael i asesu MSY.

I weld y camau gweithredu cyfatebol ar gyfer y polisïau a restrir uchod, gallwch gyrchu pob FMP drafft yn unigol drwy ddilyn y dolenni a ddarperir yn Citizen Space. Byddem yn annog ymatebwyr i ystyried yr FMPau llawn cyn ymateb i'r cwestiynau ymgynghori.

Mae'r wyth FMP canlynol yn cynnwys yr un chwe pholisi sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau rheoli domestig a rhyngwladol:

- FMP Hadog Ysgafell y Gogledd
- FMP Hadog Iwerydd
- FMP Gwyniad Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel
- FMP Gwyniad Môr Arfordir Gorllewin yr Alban
- FMP Maelgi/Cythraul Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban
- FMP Leden Fair Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban
- FMP Chwitlyn Glas Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban
- FMP Cegddu Ysgafell y Gogledd

Y chwe pholisi yw:

1. Cywain y stociau'n gynaliadwy, gan gynnal biomas uwchben y lefel sy'n gallu cynhyrchu MSY
2. Defnyddio'r dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael i gefnogi penderfyniadau rheoli yn ymwneud â phennu cyfleoedd pysgota cynaliadwy
3. Mynd i'r afael â materion gwaredu yn y bysgodfa unigol a sicrhau bod yr holl ddalfeydd yn cael eu cyfrif yn erbyn cwotâu, lle y bo'n bosibl
4. Cyflawni rheolaeth gynaliadwy ehangach trwy gymryd camau i leihau effaith y pysgodfeydd gwely'r môr ar yr ecosystem forol gymaint â phosibl
5. Cynorthwyo busnesau pysgota i barhau i gyflawni buddion economaidd-gymdeithasol a diwylliannol i gymunedau
6. Lleihau effaith pysgota ar y newid yn yr hinsawdd a chynorthwyo'r diwydiant pysgota i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

# FMP Hadog Ysgafell y Gogledd – stoc Categori 1

Mae'r FMP hwn yn ymdrin â rheoli pysgodfa hadog Ysgafell y Gogledd yn nyfroedd y Deyrnas Unedig. Mae hadog Ysgafell y Gogledd yn rhywogaeth pysgod gwyn sy'n cael ei dal yn rhan o bysgodfa pysgod gwyn cymysg o fewn a'r tu allan i ddyfroedd y Deyrnas Unedig. Rhennir rheolaeth gyffredinol ar y bysgodfa hon gyda phartneriaid Gwladwriaeth Arfordirol. Mae'n bwysig deall y cyd-destun rhyngwladol hwn wrth ystyried cynaliadwyedd a materion rheoli ehangach.

Mae stoc hadog Ysgafell y Gogledd yn cael ei physgota ar lefelau cynaliadwy ar hyn o bryd ac mae digon o dystiolaeth ar gael i asesu MSY ar gyfer y stoc hon.

Mae'r FMP hwn yn amlinellu chwe pholisi a nifer o gamau gweithredu cyfatebol ar gyfer pob polisi i barhau i gynnal stoc hadog Ysgafell y Gogledd ar lefelau cynaliadwy, gan sicrhau y gall barhau i chwarae rôl allweddol wrth ddarparu buddion economaidd-gymdeithasol cadarnhaol i'r Deyrnas Unedig, ar yr un pryd â gosod nifer o gamau gweithredu i wella rheolaeth, lle bo angen.

**C. 1 O ran FMP Hadog Ysgafell y Gogledd, ydych chi'n cytuno ein bod wedi rhestru'r holl bolisïau iawn?**

**C. 2: Beth yw'ch safbwyntiau ar y camau gweithredu a gynigir ar gyfer pob polisi yn FMP Hadog Ysgafell y Gogledd?**

# FMP Hadog Iwerydd (Rockall) – stoc Categori 1

Mae'r FMP hwn yn ymdrin â rheoli pysgodfa hadog Rockall yn nyfroedd y Deyrnas Unedig. Mae hadog Rockall yn rhywogaeth pysgod gwyn sy'n cael ei dal yn rhan o bysgodfa hadog wedi'i thargedu o fewn a'r tu allan i ddyfroedd y Deyrnas Unedig. Rhennir rheolaeth gyffredinol ar y bysgodfa hon gyda phartneriaid Gwladwriaeth Arfordirol. Mae'n bwysig deall y cyd-destun rhyngwladol hwn wrth ystyried cynaliadwyedd a materion rheoli ehangach.

Mae'r stoc hadog Rockall sy'n berthnasol i'r FMP hwn yn cael ei physgota'n gynaliadwy ar hyn o bryd o fewn terfynau MSY.

Mae'r FMP hwn yn amlinellu chwe pholisi a nifer o gamau gweithredu cyfatebol ar gyfer pob polisi i barhau i gynnal stoc hadog Rockall ar lefelau cynaliadwy, gan sicrhau y gall barhau i chwarae rôl allweddol wrth ddarparu buddion economaidd-gymdeithasol cadarnhaol i'r Deyrnas Unedig, ar yr un pryd â gosod nifer o gamau gweithredu i wella rheolaeth, lle bo angen.

**C. 3 O ran FMP Hadog Iwerydd (Rockall), ydych chi'n cytuno ein bod wedi rhestru'r holl bolisïau iawn?**

**C. 4 Beth yw'ch safbwyntiau ar y camau gweithredu a gynigir ar gyfer pob polisi yn FMP Hadog Iwerydd (Rockall)?**

## FMP Gwyniad Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel – stoc Categori 1

Mae'r FMP hwn yn ymdrin â rheoli'r stoc gwyniad Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel yn nyfroedd y Deyrnas Unedig. Mae gwyniad Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel yn rhywogaeth pysgod gwyn sy'n cael ei dal yn rhan o bysgodfa pysgod gwyn cymysg o fewn a'r tu allan i ddyfroedd y Deyrnas Unedig. Rhennir rheolaeth gyffredinol ar y bysgodfa hon gyda phartneriaid Gwladwriaeth Arfordirol. Mae'n bwysig deall y cyd-destun rhyngwladol hwn wrth ystyried cynaliadwyedd a materion rheoli ehangach.

Mae'r stoc gwyniad Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel sy'n berthnasol i'r FMP hwn yn cael ei physgota'n gynaliadwy ar hyn o bryd o fewn terfynau MSY.

Mae'r FMP hwn yn amlinellu chwe pholisi a nifer o gamau gweithredu cyfatebol ar gyfer pob polisi i barhau i gynnal stoc gwyniad Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel ar lefelau cynaliadwy, gan sicrhau y gall barhau i chwarae rôl allweddol wrth ddarparu buddion economaidd-gymdeithasol cadarnhaol i'r Deyrnas Unedig, ar yr un pryd â gosod nifer o gamau gweithredu i wella rheolaeth, lle bo angen.

**C. 5 O ran FMP Gwyniad Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel, ydych chi'n cytuno ein bod wedi rhestru'r holl bolisïau iawn?**

**C. 6 Beth yw'ch safbwyntiau ar y camau gweithredu a gynigir ar gyfer pob polisi yn FMP Gwyniad Môr y Gogledd a Dwyrain y Sianel?**

## FMP Gwyniad y Môr Arfordir Gorllewin yr Alban – stoc Categori 1

Mae'r FMP hwn yn ymdrin â rheoli pysgodfa gwyniad y môr Arfordir Gorllewin yr Alban yn nyfroedd y Deyrnas Unedig. Mae gwyniad y môr Arfordir Gorllewin yr Alban yn cael eu dal yn rhan o bysgodfa pysgod gwyn cymysg o fewn a'r tu allan i ddyfroedd y Deyrnas Unedig. Rhennir rheolaeth gyffredinol ar y bysgodfa hon gyda phartneriaid Gwladwriaeth Arfordirol. Mae'n bwysig deall y cyd-destun rhyngwladol hwn wrth ystyried cynaliadwyedd a materion rheoli ehangach.

Mae'r stoc gwyniad y môr Arfordir Gorllewin yr Alban sy'n berthnasol i'r FMP hwn yn cael ei physgota'n gynaliadwy ar hyn o bryd o fewn terfynau MSY.

Mae'r FMP hwn yn amlinellu chwe pholisi a nifer o gamau gweithredu cyfatebol ar gyfer pob polisi i barhau i gynnal stoc gwyniad y môr Arfordir Gorllewin yr Alban ar lefelau cynaliadwy, gan sicrhau y gall barhau i chwarae rôl allweddol wrth ddarparu buddion economaidd-gymdeithasol cadarnhaol i'r Deyrnas Unedig, ar yr un pryd â gosod nifer o gamau gweithredu i wella rheolaeth, lle bo angen.

**C. 7 O ran FMP Gwyniad y Môr Arfordir Gorllewin yr Alban, ydych chi'n cytuno ein bod wedi rhestru'r holl bolisïau iawn?**

**C. 8 Beth yw'ch safbwyntiau ar y camau gweithredu a gynigir ar gyfer pob polisi yn FMP Gwyniad y Môr Arfordir Gorllewin yr Alban?**

# FMP Maelgi/Cythraul Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban – stoc Categori 1

Mae'r FMP hwn yn ymdrin â rheoli pysgodfa cythraul y môr Ysgafell y Gogledd yn nyfroedd y Deyrnas Unedig. Mae cythraul y môr (maelgi) Ysgafell y Gogledd yn rhywogaeth pysgod gwyn sy'n cael ei dal yn rhan o bysgodfa pysgod gwyn cymysg o fewn a'r tu allan i ddyfroedd y Deyrnas Unedig. Rhennir rheolaeth gyffredinol ar y bysgodfa hon gyda phartneriaid Gwladwriaeth Arfordirol. Mae'n bwysig deall y cyd-destun rhyngwladol hwn wrth ystyried cynaliadwyedd a materion rheoli ehangach.

Mae stociau cythraul y môr Ysgafell y Gogledd sy'n berthnasol i'r FMP hwn yn cael eu pysgota'n gynaliadwy ar hyn o bryd o fewn terfynau MSY. Mae cythraul y môr wedi newid yn ddiweddar o stoc Categori 3 o dan broses asesu ICES (sy'n golygu bod cyfyngiadau i'r data sydd ar gael) i stoc Categori 1 (sy'n golygu bod gennym ddata cadarn a manwl ar gael).

Mae'r FMP hwn yn amlinellu chwe pholisi a nifer o gamau gweithredu cyfatebol ar gyfer pob polisi i barhau i gynnal stociau cythraul y môr Ysgafell y Gogledd ar lefelau cynaliadwy, gan sicrhau y gall barhau i chwarae rôl allweddol wrth ddarparu buddion economaidd-gymdeithasol cadarnhaol i'r Deyrnas Unedig, ar yr un pryd â gosod nifer o gamau gweithredu i wella rheolaeth, lle bo angen.

**C.9 O ran FMP Cythraul y Môr Ysgafell y Gogledd, ydych chi'n cytuno ein bod wedi rhestru'r holl bolisïau iawn?**

**C. 10 Beth yw'ch safbwyntiau ar y camau gweithredu a gynigir ar gyfer pob polisi yn FMP Cythraul y Môr Ysgafell y Gogledd?**

# FMP Lleden Fair Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban (stoc Categori 1 a Chategori 2 (yn ardal 6.b yn unig)

Mae'r FMP hwn yn ymdrin â rheoli pysgodfa lleden Fair Ysgafell y Gogledd yn nyfroedd y Deyrnas Unedig. Mae lleden Fair Ysgafell y Gogledd yn rhywogaeth pysgod gwyn sy'n cael ei dal yn rhan o bysgodfa pysgod gwyn cymysg ac wedi'i thargedu o fewn a'r tu allan i ddyfroedd y Deyrnas Unedig. Rhennir rheolaeth gyffredinol ar y bysgodfa hon gyda phartneriaid Gwladwriaeth Arfordirol. Mae'n bwysig deall y cyd-destun rhyngwladol hwn wrth ystyried cynaliadwyedd a materion rheoli ehangach.

Mae stociau lleden Fair Ysgafell y Gogledd sy'n berthnasol i'r FMP hwn yn cael eu pysgota'n gynaliadwy ar hyn o bryd o fewn terfynau MSY.

Mae'r FMP hwn yn amlinellu chwe pholisi a nifer o gamau gweithredu cyfatebol ar gyfer pob polisi i barhau i gynnal stoc lleden Fair Ysgafell y Gogledd ar lefelau cynaliadwy, gan sicrhau y gall barhau i chwarae rôl allweddol wrth ddarparu buddion economaidd-gymdeithasol cadarnhaol i'r Deyrnas Unedig, ar yr un pryd â gosod nifer o gamau gweithredu i wella rheolaeth, lle bo angen.

**C. 11 O ran FMP Lleden Fair Ysgafell y Gogledd, ydych chi'n cytuno ein bod wedi rhestru'r holl bolisïau iawn?**

**C. 12 Beth yw'ch safbwyntiau ar y camau gweithredu a gynigir ar gyfer pob polisi yn FMP Lleden Fair Ysgafell y Gogledd?**

# FMP Chwitlyn Glas Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban – stoc Categori 1

Mae'r FMP hwn yn ymdrin â rheoli'r bysgodfa chwitlyn glas yn nyfroedd y Deyrnas Unedig. Mae chwitlyn glas yn rhywogaeth pysgod gwyn sy'n cael ei dal yn rhan o bysgodfa pysgod gwyn cymysg ac wedi'i thargedu o fewn a'r tu allan i ddyfroedd y Deyrnas Unedig. Rhennir rheolaeth gyffredinol ar y bysgodfa hon gyda phartneriaid Gwladwriaeth Arfordirol. Mae'n bwysig deall y cyd-destun rhyngwladol hwn wrth ystyried cynaliadwyedd a materion rheoli ehangach.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod y Ddalfa Fwyaf a Ganiateir (TAC) ar gyfer chwitlyn glas yn cael ei osod yn gynaliadwy o fewn ymagwedd MSY. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r biomas stoc silio (SSB) wedi bod yn rhy isel, ac mae angen i'r stoc gael ei monitro'n ofalus i sicrhau bod y mesurau rheoli priodol ar waith yn y dyfodol.

Mae'r FMP hwn yn amlinellu chwe pholisi a nifer o gamau gweithredu cyfatebol ar gyfer pob polisi i reoli'r stoc chwitlyn glas ar lefelau cynaliadwy, gan sicrhau y gall barhau i chwarae rôl allweddol wrth ddarparu buddion economaidd-gymdeithasol cadarnhaol i'r Deyrnas Unedig, ar yr un pryd â gosod nifer o gamau gweithredu i wella rheolaeth, lle bo angen.

**C.13 O ran FMP Chwitlyn Glas Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban, ydych chi'n cytuno ein bod wedi rhestru'r holl bolisïau iawn?**

**C. 14 Beth yw'ch safbwyntiau ar y camau gweithredu a gynigir ar gyfer pob polisi yn FMP Chwitlyn Glas Môr y Gogledd ac Arfordir Gorllewin yr Alban?**

# FMP Cegddu Ysgafell y Gogledd – stoc Categori 1

Mae’r FMP hwn yn ymdrin â rheoli’r bysgodfa cegddu yn nyfroedd y Deyrnas Unedig. Mae cegddu’n rhywogaeth pysgod gwyn sy’n cael ei dal yn rhan o bysgodfeydd pysgod gwyn cymysg ac wedi’u targedu o fewn a’r tu allan i ddyfroedd y Deyrnas Unedig. Rhennir rheolaeth gyffredinol ar y bysgodfa hon gyda phartneriaid Gwladwriaeth Arfordirol. Mae’n bwysig deall y cyd-destun rhyngwladol hwn wrth ystyried cynaliadwyedd a materion rheoli ehangach. Mae llawer o ddata ar gael am y stoc cegddu. Ar y sail hon, mae digon o dystiolaeth wyddonol ar gael i’r awdurdodau polisi pysgodfeydd perthnasol wneud asesiadau MSY blynyddol ar gyfer stoc cegddu Ysgafell y Gogledd. Mae cyfleoedd pysgota ar gyfer y stoc cegddu sy’n berthnasol i’r FMP hwn yn cael eu gosod ar hyn o bryd o fewn dull MSY ICES.

Mae’r FMP hwn yn amlinellu chwe pholisi a chamau gweithredu i barhau i gynnal y stoc cegddu ar lefelau cynaliadwy, gan sicrhau y gall barhau i chwarae rôl allweddol wrth ddarparu buddion economaidd-gymdeithasol cadarnhaol i’r Deyrnas Unedig, ar yr un pryd â gosod nifer o gamau gweithredu i wella rheolaeth, lle bo angen. Un o’r meysydd ar gyfer gweithredu yw gwella’r dull rheoli cyffredinol trwy symud y stoc i drefniadau rheoli teirochrog gyda’r Undeb Ewropeaidd a Norwy, a thrwy sefydlu Cynlluniau Rheoli Tymor Hir (LTMP) gyda Gwladwriaethau Arfordirol eraill.

**C. 15 O ran FMP Cegddu Ysgafell y Gogledd, ydych chi’n cytuno ein bod wedi rhestru’r holl bolisïau iawn?**

**C. 16 Beth yw’ch safbwyntiau ar y camau gweithredu a gynigir ar gyfer pob polisi yn FMP Cegddu Ysgafell y Gogledd?**

Mae tri FMP a chanddynt bolisïau a chamau gweithredu gwahanol, sef yr FMPau Honos Ysgafell y Gogledd, Penfras Iwerydd (Rockall), a Phenfras Ysgafell y Gogledd. Manylir ar y polisïau a’r camau gweithredu ar gyfer y stociau hyn isod.

# FMP Honos Ysgafell y Gogledd – stoc Categori 3

Mae’r FMP hwn yn berthnasol i reoli honos Ysgafell y Gogledd yn gynaliadwy. Mae honos Ysgafell y Gogledd yn rhywogaeth pysgod gwyn sy’n cael ei dal yn rhan o bysgodfa pysgod gwyn cymysg ac wedi’i thargedu o fewn a’r tu allan i ddyfroedd y Deyrnas Unedig. Rhennir rheolaeth gyffredinol ar y bysgodfa hon gyda phartneriaid Gwladwriaeth Arfordirol. Mae’n bwysig deall y cyd-destun rhyngwladol hwn wrth ystyried cynaliadwyedd a materion rheoli ehangach.

Gan nad oes llawer o ddata ar gael am honos Ysgafell y Gogledd, mae’n anodd rheoli pysgodfeydd ar gyfer y stoc hon. Er nad oes gan yr awdurdodau polisi pysgodfeydd perthnasol ddigon o dystiolaeth i amcangyfrif cyfeirbwyntiau MSY ar gyfer yr Honos Ysgafell y Gogledd sydd dan sylw yn yr FMP hwn, mae’r cyngor a’r dulliau rheoli’n dilyn dull MSY ICES o dan eu fframwaith ar gyfer stociau Categori 3.

Mae honos yn elfen bwysig o’r bysgodfa pysgod gwyn cymysg, ac yn enwedig felly i’r fflyd bysgota bachyn a lein hir. Gan nad oes llawer o dystiolaeth ar gael, gosodir TACau ar gyfer honos Ysgafell y Gogledd ar sail ragofalus yn rhan o gytundebau dwyochrog y Deyrnas Unedig/yr Undeb Ewropeaidd. Mae anhawster ychwanegol

oherwydd bod y stoc yn cael ei rhannu gyda Norwy, ond nid yw'n cael ei rheoli ar y cyd yn rhan o'r cytundebau teirochrog.

O ganlyniad, mae FMP Honos Ysgafell y Gogledd yn amlinellu chwe pholisi a nifer o gamau gweithredu cyfatebol sydd ychydig yn wahanol i'r FMPau gwely'r môr eraill, ac mae eu rheolaeth gynaliadwy'n dibynnu ar wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer honos fel y gellir cynnal asesiad cywir o iechyd y stoc, a phennu cyfleoedd pysgota ar lefelau priodol yn y dyfodol.

Chwe pholisi FMP Honos Ysgafell y Gogledd yw:

1. Parhau i reoli stoc honos Ysgafell y Gogledd gan ddefnyddio offer presennol i gynnal lefelau stoc
2. Gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y stoc, er mwyn helpu i gywain stoc honos Ysgafell y Gogledd yn gynaliadwy, gan gynnal biomas uwchben y lefel sy'n gallu cynhyrchu MSY
3. Mynd i'r afael â materion gwaredu ym mhysgodfa honos Ysgafell y Gogledd a sicrhau bod yr holl ddalfeydd yn cael eu cyfrif yn erbyn cwotâu, lle y bo'n bosibl
4. Cyflawni rheolaeth gynaliadwy ehangach trwy gymryd camau i leihau effaith y bysgodfa honos ar yr ecosystem forol gymaint â phosibl
5. Cynorthwyo busnesau pysgota i gyflawni buddion economaidd-gymdeithasol a diwylliannol i gymunedau
6. Lleihau effaith pysgota ar y newid yn yr hinsawdd a chynorthwyo'r diwydiant pysgota i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd

**C. 17 O ran FMP Honos Ysgafell y Gogledd, ydych chi'n cytuno ein bod wedi rhestru'r holl bolisïau iawn?**

**C. 18 Beth yw'ch safbwyntiau ar y camau gweithredu a gynigir ar gyfer pob polisi yn FMP Honos Ysgafell y Gogledd?**

# FMP Penfras Iwerydd (Rockall) – stoc Categori 6

Mae'r FMP hwn yn berthnasol i'r bysgodfa penfras Rockall yn nyfroedd y Deyrnas Unedig. Mae penfras Rockall yn rhywogaeth pysgod gwyn sy'n cael ei dal yn rhan o bysgodfa pysgod gwyn cymysg o fewn a'r tu allan i ddyfroedd y Deyrnas Unedig. Rhennir rheolaeth gyffredinol ar y bysgodfa hon gyda'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n bwysig deall y cyd-destun rhyngwladol hwn, yn enwedig wrth ystyried camau gweithredu yn ymwneud â gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y stoc.

Mae ICES yn dosbarthu penfras Iwerydd (Rockall) fel bod â data cyfyngedig (Categori 6). Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd sicrhau bod y mesurau rheoli pysgodfeydd iawn ar waith, gan na ellir pennu iechyd cyffredinol y stoc ar hyn o bryd. Mae ffactorau economaidd-gymdeithasol arwyddocaol i'w hystyried wrth bennu cyfleoedd pysgota ar gyfer Rockall ac felly mae cyfleoedd pysgota ar gyfer penfras Rockall yn aml yn cael eu pennu'n uwch na chyngor MSY ICES ar hyn o bryd. Er bod hyn yn cael ei ganiatáu o dan reolau rheoli pysgodfeydd, nid yw'n ddelfrydol.

O ganlyniad, mae'r FMP Penfras Iwerydd (Rockall) yn amlinellu pum polisi a nifer o gamau gweithredu cyfatebol sydd ychydig yn wahanol i'r FMPau gwely'r môr eraill, ac mae eu rheolaeth gynaliadwy'n dibynnu ar wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer penfras Rockall fel y gellir cynnal asesiad cywir o iechyd y stoc, a phennu cyfleoedd pysgota ar lefelau priodol yn y dyfodol.

Pum polisi'r FMP Penfras Iwerydd (Rockall) yw:

1. Parhau i reoli'r stoc penfras Rockall gan ddefnyddio offer presennol i gynnal lefelau stoc
2. Gweithredu mewn partneriaeth â'r Undeb Ewropeaidd i wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y stoc, er mwyn cefnogi cywain cynaliadwy, gan gynnal biomas uwchben y lefel sy'n gallu cynhyrchu MSY
3. Mynd i'r afael â materion gwaredu ym mhysgodfa penfras Rockall a sicrhau bod yr holl ddalfeydd yn cael eu cyfrif yn erbyn cwotâu, lle y bo'n bosibl
4. Cyflawni rheolaeth gynaliadwy ehangach trwy gymryd camau i leihau'r effaith y mae llongau sy'n pysgota yn ardal Rockall sy'n cymryd sgil-ddalfa penfras yn ei chael ar yr ecosystem forol gymaint â phosibl
5. Lleihau effaith pysgota ar y newid yn yr hinsawdd a chynorthwyo'r diwydiant pysgota i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd

**C. 19 O ran FMP Penfras Iwerydd (Rockall), ydych chi'n cytuno ein bod wedi rhestru'r holl bolisïau iawn?**

**C. 20 Beth yw'ch safbwyntiau ar y camau gweithredu a gynigir ar gyfer pob polisi yn FMP Penfras Iwerydd (Rockall)?**

# FMP Penfras Ysgafell y Gogledd – stoc Categori 1 (gyda strwythur stoc cymhleth)

Mae'r FMP hwn yn ymdrin â physgodfa penfras Ysgafell y Gogledd yn nyfroedd y Deyrnas Unedig. Mae penfras Ysgafell y Gogledd yn rhywogaeth pysgod gwyn sy'n cael ei dal yn rhan o bysgodfa pysgod gwyn cymysg o fewn a'r tu allan i ddyfroedd y Deyrnas Unedig. Rhennir rheolaeth gyffredinol ar y bysgodfa hon gyda phartneriaid Gwladwriaeth Arfordirol. Mae'n bwysig deall y cyd-destun rhyngwladol hwn o ran cynaliadwyedd a materion rheoli ehangach, yn enwedig wrth ystyried y mesurau ar y cyd sydd wedi'u sefydlu i wella'r sylfaen dystiolaeth ac iechyd y stoc dros y blynyddoedd.

Ers blynyddoedd lawer, roedd cyngor ICES yn ystyried penfras Môr y Gogledd a phenfras Gorllewin yr Alban yn ddwy stoc ar wahân, a bu nifer o amrywiadau i'r cyngor a'r TAC rhwng 2019 a 2024. Roedd y cyngor TAC a gyhoeddwyd gan ICES ym mis Medi 2023 yn cynrychioli newid sylweddol i'r canfyddiad o iechyd y stoc, ac yn cyfuno'r cyngor ar gyfer Môr y Gogledd a Gorllewin yr Alban yn un set drosfwaol o gyngor ar stoc 'Ysgafell y Gogledd'. Mae amrywiadau i iechyd y stoc dros y blynyddoedd yn dangos strwythur cymhleth y stoc penfras, ei thueddiad i ymateb i newidiadau sylweddol, a'r heriau tystiolaeth sylfaenol ar gyfer y stoc. Mae hyn, yn ei dro, yn golygu mai penfras yw un o'r stociau mwyaf heriol i'w rheoli. Mae nifer o fesurau ar waith i reoli stoc penfras Ysgafell y Gogledd, gan gynnwys ystod o

fesurau penodol i stoc a sefydlwyd yn 2020 o dan y Cynllun Osgoi Penfras Cenedlaethol (NCAP). Manylir ar y rhain yn Atodiad A i'r FMP Penfras Ysgafell y Gogledd. Dylid nodi bod y cyngor TAC ar gyfer 2026 wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar gan ICES (ar 23 Medi 2025) ac, wrth adolygu mesurau, bydd yr awdurdodau pysgodfeydd yn ystyried statws yr is-stociau ar gyfer 2026, a chymhwyso canllawiau ICES ar bysgodfeydd cymysg.

Mae'r FMP hwn yn amlinellu chwe pholisi a nifer o gamau gweithredu cyfatebol ar gyfer pob polisi i reoli stoc penfras Ysgafell y Gogledd ar lefelau cynaliadwy, gan sicrhau y gall barhau i chwarae rôl allweddol wrth ddarparu buddion economaidd-gymdeithasol cadarnhaol i'r Deyrnas Unedig. Er bod y chwe pholisi'n debyg i FMPau gwely'r môr eraill, mae'r camau gweithredu unigol yn amlinellu'r angen i wella'r sylfaen dystiolaeth wyddonol ar gyfer y stoc, ynghyd â chamau gweithredu i wella rheolaeth, yn enwedig camau i'w cymryd ar y cyd â Gwladwriaethau Arfordirol eraill.

Chwe pholisi'r FMP hwn yw:

1. Cywain stoc penfras Ysgafell y Gogledd yn gynaliadwy, gan gyfrannu at adfer a chynnal y biomas uwchben y lefel sy'n gallu cynhyrchu MSY, a gwneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu statws ac ansicrwydd is-stociau bregus
2. Defnyddio'r dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael i gefnogi penderfyniadau rheoli yn ymwneud â phennu cyfleoedd pysgota cynaliadwy
3. Mynd i'r afael â materion gwaredu yn mhysgodfa benfras Ysgafell y Gogledd a sicrhau bod yr holl ddalfeydd yn cael eu cyfrif yn erbyn cwotâu, lle bo'n bosibl
4. Cyflawni rheolaeth gynaliadwy ehangach trwy gymryd camau i leihau effaith y bysgodfa penfras ar yr ecosystem forol gymaint â phosibl
5. Cynorthwyo busnesau pysgota i gyflawni buddion economaidd-gymdeithasol a diwylliannol i gymunedau
6. Lleihau effaith pysgota ar y newid yn yr hinsawdd a chynorthwyo'r diwydiant pysgota i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

**C. 21 O ran FMP Penfras Ysgafell y Gogledd, ydych chi'n cytuno ein bod wedi rhestru'r holl bolisïau iawn?**

**C. 22 Beth yw'ch safbwyntiau ar y camau gweithredu a gynigir ar gyfer pob polisi yn FMP Penfras Ysgafell y Gogledd?**

**C. 23 Yn ogystal â gwneud sylwadau ar FMP Penfras Ysgafell y Gogledd, un o'r camau gweithredu yn yr FMP yw adolygu'r mesurau technegol presennol, gan gynnwys y rhai hynny a geir yng Nghynllun Osgoi Penfras Môr y Gogledd Cenedlaethol (NCAP) presennol y Deyrnas Unedig, a gynhwysir yn Atodiad A i'r FMP. Rhannwch unrhyw sylwadau sydd gennych ynglŷn â hyn.**

# Gweithredu

Pan fyddant wedi'u cyhoeddi, bydd angen i'r camau gweithredu a'r polisïau yn y cynlluniau gael eu gweithredu. Bydd hyn yn broses ailadroddus, a bydd Llywodraeth yr Alban yn gweithio'n agos gyda'r awdurdodau eraill perthnasol, y sector pysgota a rhanddeiliaid ehangach i ddatblygu cynlluniau gweithredu.

Cyhoeddi'r FMPau yw dechrau cylch aml-flwyddyn, a byddwn yn sicrhau bod y cynlluniau'n taro cydbwysedd rhwng cynyddu momentwm ar gyfer camau gweithredu tymor byr a gosod cyfeiriad ar gyfer y tymor hwy. Gellir ailadrodd hyn ymhellach wrth i'r sylfaen dystiolaeth gael ei gwella.

Bydd y polisïau a'r camau gweithredu yn yr FMP hwn yn cael eu hadolygu yn rhan o'r cylch adolygu tair blynedd ar gyfer y JFS. Yn ogystal, fel yr amlinellir yn Neddf 2020 a'r JFS, bydd yr FMPau yn cael eu hadolygu bob chwe blynedd o leiaf. Fe allai adolygiad cynharach gael ei sbarduno gan newid i dystiolaeth berthnasol, rhwymedigaethau rhyngwladol, neu ddigwyddiadau ehangach. Bydd y penderfyniad i adolygu'n gynharach yn cael ei wneud gan yr awdurdodau polisi pysgodfeydd.

Mae grwpiau traws-reoleiddiwr, llywodraeth a diwydiant wedi bod yn ganolog i ddatblygu'r FMPau drafft. Mae ymwneud gan randdeiliaid a chydweithio parhaus yn sail i gyflawni'r FMPau yn llwyddiannus a bydd yn parhau ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.

# Ystyriaethau cyffredinol

I grynhoi, mae FMPau gwely'r môr ar y cyd y Deyrnas Unedig yn disgrifio mesurau rheoli a rheoliadau presennol, a'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael i asesu statws y stociau sydd dan sylw yn yr FMPau hyn yn nyfroedd y Deyrnas Unedig. Bydd yr FMPau yn sicrhau bod y stociau'n parhau i gael eu rheoli'n gynaliadwy uwchben lefelau biomas ac yn gyson â dull MSY. Mae'r cysylltiadau â pholisïau cysylltiedig wedi cael eu hamlygu a'u trafod yn adrannau priodol yr FMPau.

**C. 24 Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr adrannau penodol yn unrhyw un o'r FMPau drafft? Er enghraifft:**

- **yr adran Asesu Stoc ac MSY** sy'n rhoi gwybodaeth am asesiadau stoc sydd ar gael, cynnyrch cynaliadwy mwyaf (MSY) a bioleg stoc ar gyfer y stociau unigol sydd dan sylw yn yr FMPau gwely'r môr.

- **yr adran Rheoli Pysgodfeydd** sy'n amlinellu cynigion i gynnal rheolaeth gynaliadwy ar bysgodfeydd gwely'r môr yn nyfroedd y Deyrnas Unedig yn yr hirdymor. Mae hefyd yn ymdrin â'r mesurau technegol presennol, yn ogystal â monitro, rheoli a gorfodi.

- **yr adran Ystyriaethau Amgylcheddol** sy'n ymdrin â'r dyletswyddau a'r gofynion cyfreithiol yn ymwneud â gwarchod yr amgylchedd naturiol sy'n deillio o

ddeddfwriaeth. Mae'n manylu ar y cyngor cadwraeth a ddatblygwyd gan yr SNCBau sy'n disgrifio'r risgiau sy'n deillio o'r pysgodfeydd gwely'r môr a gynhwysir yn yr 11 FMP gwely'r môr.

- **yr adran Gweithredu a Monitro** sy'n disgrifio'r broses ar gyfer gweithredu a'r ffaith y bydd cyflawni'r polisïau a'r camau gweithredu yn yr FMPau gwely'r môr yn cael ei fonitro a'i asesu yn erbyn cyfres o ddangosyddion i sicrhau bod y canlyniadau a'r camau gweithredu trosfwaol yn effeithiol wrth gyflawni nodau'r FMP a gofynion y Ddeddf.

**C. 25 Oes gennych chi unrhyw ddata neu dystiolaeth ychwanegol ar gyfer y stociau unigol sydd wedi'u dosbarthu'n ddiffygiol o ran data?**

**C. 26 Oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol ar yr 11 FMP gwely'r môr arfaethedig?**

# Asesiadau Effaith

Rydym hefyd yn ceisio safbwyntiau ar yr asesiadau effaith ategol canlynol trwy'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Mae'r FMPau gwely'r môr yn gynlluniau ar y cyd rhwng Defra, Llywodraeth Cymru (o ran FMP Cegddu Ysgafell y Gogledd yn unig), DAERA a Llywodraeth yr Alban. Mae rheoli pysgodfeydd wedi'i ddatganoli, a bydd y broses o weithredu deddfwriaeth newydd, rheoliadau gwirfoddol, codau ymarfer, canllawiau neu newidiadau polisi yn cael ei datblygu a'i hasesu gan awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol unigol, fel y bo'n briodol. Bydd unrhyw asesiadau effaith yn dilyn prosesau asesu unigol pob awdurdod.

Mae Asesiad Effaith Busnes a Rheoleiddiol (BRIA) rhannol yn destun yr ymgynghoriad hwn hefyd. Nid oes angen BRIA llawn ar y cam ymgynghori gan nad yw'r cynlluniau'n cyflwyno deddfwriaeth newydd, rheoliadau gwirfoddol, codau ymarfer, canllawiau na newidiadau polisi. Os bydd unrhyw un o'r uchod yn cael ei weithredu yn y dyfodol o ganlyniad i'r FMP, bydd BRIA llawn ac asesiadau priodol gan bob awdurdod yn cael eu cwblhau ar ymyriadau penodol.

**C. 27 Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr Asesiad Effaith Busnes a Rheoleiddiol (BRIA) rhannol?**

# Adroddiad Amgylcheddol

Mae gofyniad cyfreithiol ar Lywodraeth yr Alban i ystyried effaith amgylcheddol ei pholisïau, ei chynlluniau a'i rhaglenni. Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)

yn ofynnol ar gyfer unrhyw gynlluniau, rhaglenni, a strategaethau cyhoeddus cymwys yn ystod y broses o'u paratoi a chyn eu cyhoeddi os ydynt yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle morol Ewropeaidd (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol).

Mae'r 11 FMP gwely'r môr a arweinir gan yr Alban yn dod o fewn cwmpas Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 oherwydd bod rhychwant daearyddol rhai o'r cynlluniau'n ymestyn y tu hwnt i'r Alban. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cynnal yr asesiadau sy'n ofynnol yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rheoliadau 2017, a adwaenir fel y Rheoliadau Cynefinoedd, ac wedi penderfynu y gallai'r FMPau Gwely'r Môr gael effaith sylweddol debygol (naill ai cadarnhaol neu negyddol) ar safleoedd Ewropeaidd neu safleoedd morol alltraeth Ewropeaidd, felly mae wedi cwblhau SEA sydd ar gael trwy'r ddolen i'r Ymgynghoriad yma.

Llywiwyd y cwmpas a lefel y manylion trwy ymgynghori'n gynnar ag SNCBau y Deyrnas Unedig a chyngor cadwraeth. Defnyddiwyd gwybodaeth gyhoeddedig am gyflwr yr amgylchedd ac effaith bosibl pysgota ar nodweddion amgylcheddol.

**C. 28 Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr asesiad o effeithiau amgylcheddol yr 11 FMP gwely'r môr drafft, fel yr amlinellir yn yr adroddiad amgylcheddol?**

Ledled y Deyrnas Unedig, ac yn enwedig yn yr Alban, ceir llawer o wahanol gymunedau ynys sydd â phresenoldeb pysgota cryf. Fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Ynysoedd (Yr Alban) 2018, bydd Asesiad o'r Effaith ar Gymunedau Ynysoedd (ICIA) yn cael ei ystyried cyn cyhoeddi'r FMPau terfynol. Er bod mesurau rheoli pysgodfeydd yn tueddu i gael eu cymhwyso'n gyson ac na fyddant yn cael effaith wahanol neu anghytbwys ar gymunedau ynys yn gyffredinol, byddwn yn ystyried a oes angen ICIA cyn cwblhau'r FMPau yn derfynol ac yn ystyried unrhyw adborth o'r ymgynghoriad hwn.

**C. 29 Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar unrhyw effeithiau posibl ar ynysoedd sy'n deillio o'r FMPau drafft?**

# Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Ymatebwch i'r ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio hyb ymgynghori Llywodraeth yr Alban, sef Citizen Space, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch gael at yr ymgynghoriad hwn ac ymateb iddo ar-lein yn Ymgynghoriad – 11 Cynllun Rheoli Pysgodfeydd Ar y Cyd Arfaethedig y Deyrnas Unedig ar gyfer Stociau Pysgod Gwely'r Môr

Gallwch arbed eich ymatebion a dychwelyd iddynt tra bod yr ymgynghoriad ar agor. Gwnewch yn siŵr fod ymatebion ymgynghori'n cael eu cyflwyno cyn y dyddiad cau. Os na allwch ymateb gan ddefnyddio ein hyb ymgynghori, llenwch y Ffurflen Gwybodaeth Ymatebydd a'i hanfon at:

**Y Rhaglen Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd**
**Ymgynghoriad ar Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd Gwely'r Môr a Arweinir gan yr Alban**
**Llywodraeth yr Alban**
**Cei Victoria**
**Ardal 1B Gogledd**
**Caeredin**
**EH6 6QQ**

Gallwch hefyd anfon eich ymateb atom drwy e-bost: FMPs@gov.scot

**Trin eich ymateb**
Os byddwch yn ymateb gan ddefnyddio'r hyb ymgynghori, fe'ch cyfeirir at y dudalen Amdanoch Chi cyn cyflwyno'ch ymateb. Nodwch sut rydych eisiau i'ch ymateb gael ei drin ac, yn arbennig, a ydych yn fodlon i'ch ymateb gael ei gyhoeddi. Os gofynnwch i'ch ymateb beidio â chael ei gyhoeddi, byddwn yn ei ystyried yn gyfrinachol ac yn ei drin yn unol â hynny.

Dylai pob ymatebydd fod yn ymwybodol bod Llywodraeth yr Alban yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth (Yr Alban) 2002 ac felly byddai'n rhaid iddi ystyried unrhyw gais a wneir iddi o dan y Ddeddf am wybodaeth yn ymwneud ag ymatebion i'r ymarfer ymgynghori hwn.

Os na allwch ymateb trwy Citizen Space, llenwch a dychwelwch y Ffurflen Gwybodaeth Ymatebydd a ddarperir ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

I gael gwybod sut rydym yn trin eich data personol, gallwch weld y polisi preifatrwydd yma: Preifatrwydd - gov.scot. Mae hysbysiad preifatrwydd ar y cyd ar gyfer y Deyrnas Unedig ar gael isod.

Os byddwch yn ymateb trwy e-bost, strwythurwch eich ymateb yn unol â'r cwestiynau mewn teip trwm drwy gydol y ddogfen hon.

Mae'r cwestiynau ymgynghori mewn teip trwm yn yr adran cwestiynau Ymgynghori yn y ddogfen hon ac yn yr arolwg ar-lein.

Mae fersiynau print bras a braille o'r ddogfen hon ar gael ar gais.
Mae tair rhan i'r arolwg ymgynghori ar-lein:

1. Manylion personol a chyfrinachedd (gofynnol)
2. Cwestiynau am yr FMPau gwely'r môr, y BRIA a'r SEA (gofynnol)
3. Adborth ymgyngoreion ar yr arolwg ar-lein (gofynnol)

Bydd angen i chi ymateb i'r cwestiynau rydych eisiau eu hateb yn unig. Er enghraifft, os oes gennych ddiddordeb mewn un FMP yn unig, nid oes angen i chi ymateb i'r cwestiynau ar y lleill. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r holl ymatebwyr gwblhau'r adrannau 'Adborth ymgyngoreion ar yr arolwg ar-lein' a 'manylion personol a chyfrinachedd' gofynnol cyn y gallwch gyflwyno'ch ymateb i'r arolwg ar-lein. Croesawn unrhyw wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r gwaith hwn – gallwch ei chyflwyno'n uniongyrchol.

# Hysbysiad Preifatrwydd Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd Gwely'r Môr Ar y Cyd y Deyrnas Unedig

Ymgynghoriad ar y cyd yw hwn rhwng Llywodraeth yr Alban, Defra, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon (DAERA).

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut bydd yr awdurdodau polisi pysgodfeydd (FPAau) a restrir uchod yn defnyddio'ch data wrth brosesu ymatebion ymgynghori. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys yr hysbysiad preifatrwydd hwn, anfonwch neges e-bost at FMPs@gov.scot.

**Pwy sy'n casglu eich data personol**

Mae'r FPAau yn rheolwyr ar y cyd ar gyfer y data personol a gasglwn.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth am sut mae Llywodraeth yr Alban yn defnyddio'ch data personol a'ch hawliau cysylltiedig, gallwch gysylltu â DataProtectionOfficer@gov.scot.

Mae'r swyddog diogelu data ar gyfer Defra yn gyfrifol am wirio bod Defra yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Gallwch gysylltu ag ef trwy DefraGroupDataProtectionOfficer@defra.gov.uk, neu gallwch gysylltu â rheolwr diogelu data Defra trwy data.protection@defra.gov.uk yn ogystal â'r cyfeiriad isod:

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Adeilad Seacole
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

Gallwch gysylltu â Llywodraeth Cymru trwy DataProtectionOfficer@gov.wales a DAERA trwy dataprotectionofficer@daera-ni.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth am sut mae pob FPA yn defnyddio'ch data personol.

**Pa ddata personol a gasglwn a sut y caiff ei ddefnyddio**

Byddwn yn casglu eich:

- Enw
- Manylion cyswllt
- Safbwyntiau
- Sefydliad

Bydd yr FPAau yn defnyddio'ch data personol pan fyddant yn ymgynghori â chi ac yn derbyn eich sylwadau a'ch safbwyntiau ar ddeddfwriaeth neu bolisi arfaethedig yn ymwneud â materion rydych wedi nodi eu bod o ddiddordeb i chi. Fe allai'r FPAau gysylltu â chi'n uniongyrchol i'ch gwahodd i roi eich sylwadau a'ch safbwyntiau wrth ymateb i ymarfer ymgynghori neu fe allech benderfynu ymateb i ymarfer ymgynghori a welsoch ar GOV.UK neu rywle arall.

Os byddwch yn ymateb i ymarfer ymgynghori, bydd eich data personol yn cynnwys eich enw a'ch manylion cyswllt a'r safbwyntiau a roddwch yn eich ymateb. Bydd yr FPAau yn defnyddio'ch data personol i gofnodi'ch safbwyntiau ac ystyried eich ymateb – cyn belled ag y bo'n bosibl gyda'r holl ymatebion eraill – pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

**Sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data personol**

Eich cydsyniad yw'r sail gyfreithlon ar gyfer defnyddio'ch data personol at ddiben yr ymarfer ymgynghori hwn. Os yw'r FPAau wedi cysylltu â chi'n uniongyrchol i'ch hysbysu am ymarfer ymgynghori, gwnaed hynny oherwydd eich bod wedi rhoi gwybod iddynt yn flaenorol yr hoffech dderbyn negeseuon yn ymwneud â phwnc yr ymgynghoriad. P'un a gawsoch yr ymarfer ymgynghori'n uniongyrchol gan yr FPAau neu mewn unrhyw ffordd arall, os byddwch yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori, byddwch yn gwneud hynny'n rhydd ac yn wirfoddol ar ôl cael y cyfle i ystyried yr holl wybodaeth yn y dogfennau ymgynghori.

**Tynnu'ch cydsyniad yn ôl**

Mae prosesu'ch data personol wedi'i seilio ar gydsyniad. Gallwch dynnu'ch cydsyniad yn ôl unrhyw bryd drwy anfon neges e-bost at FMPs@gov.scot. Os byddwch yn tynnu'ch cydsyniad yn ôl, ni fydd yr FPAau yn gallu cysylltu â chi ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn, ymgynghoriadau eraill cysylltiedig na'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd (FMPau) cyhoeddedig. Efallai byddwn yn defnyddio'ch ymateb o hyd i ddiweddaru'r FMPau, ond bydd hyn yn ddienw ac ni fydd yn gysylltiedig â'ch data personol.

**Gyda phwy y byddwn yn rhannu eich data personol**

Ymgynghoriad ar y cyd yw hwn, felly bydd yr holl FPAau (y Gyfarwyddiaeth Forol yn Llywodraeth yr Alban, Defra, Llywodraeth Cymru a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon) yn gallu cael at eich ymateb a'ch data personol.

Bydd yr FPAau yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion; ni fydd hyn yn cynnwys unrhyw ddata personol.

O fewn yr FPAau, bydd eich data personol ac adnabyddadwy ar gael i'r timau sy'n gweithio ar yr ymgynghoriad. Byddai'r rhain yn cynnwys y canlynol: y tîm polisi a enwyd yn y dogfennau ymgynghori, Cydlynydd yr Ymgynghoriad a'r tîm sy'n dadansoddi'r ymatebion ymgynghori. Bydd eich data personol yn cael ei brosesu gan 'Citizen Space', sef y darparwr trydydd parti a ddewiswyd ar gyfer y gwasanaeth hwn.

Byddwn yn parchu eich preifatrwydd personol wrth ymateb i geisiadau mynediad at wybodaeth. Byddwn yn rhannu gwybodaeth pan fydd hynny'n angenrheidiol yn unig i fodloni gofynion statudol Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

**Pa mor hir y byddwn yn dal data personol**

Bydd yr FPAau yn dal eich data personol am hyd at 3 blynedd ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori. Yna, bydd eich data personol yn cael ei olygu; bydd gweddill yr ymateb yn cael ei gadw am 7 mlynedd o leiaf a'i arfarnu gan ein tîm Arfarnu Gwybodaeth i benderfynu a oes gwerth hanesyddol i'r wybodaeth. Os felly, fe'i trosglwyddir i'r Archifau Cenedlaethol i'w gwarchod. Os nad oes gwerth hanesyddol iddi, caiff ei dinistrio yn unol ag amserlenni cadw.

**Beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn darparu'r data personol**

Os na fyddwch yn darparu'r data personol, ni fydd y tîm polisi'n gallu cysylltu â chi ynglŷn â'r ymgynghoriad FMPau Gwely'r Môr nac ymgynghoriadau eraill cysylltiedig.

**Gwneud penderfyniadau awtomataidd neu broffilio**

Ni fydd y data personol a ddarparwch yn cael ei ddefnyddio i:

- wneud penderfyniadau awtomataidd (gwneud penderfyniad trwy ddull awtomataidd heb unrhyw ymwneud gan bobl)
- proffilio (prosesu data personol yn awtomataidd i werthuso pethau penodol am unigolyn)

**Trosglwyddo eich data personol y tu allan i'r Deyrnas Unedig**

Bydd yr FPAau ond yn trosglwyddo eich data personol i wlad arall yr ystyrir ei bod yn ddigonol at ddibenion diogelu data. Pan fydd angen, bydd yr FPAau yn ceisio sicrwydd ynghylch mesurau diogelu priodol pan ystyrir bod trosglwyddiad cyfyngedig yn hanfodol.

**Defnyddio meddalwedd deallusrwydd artiffisial i ddadasoddi'r ymgynghoriad**

Fe allai eich ymatebion gael eu prosesu gan drydydd parti. Efallai byddwn yn defnyddio meddalwedd deallusrwydd artiffisial i gefnogi ein proses ddadansoddi. Bydd rhaid i unrhyw gontractwyr allanol a gyflogir gan Lywodraeth yr Alban i ddadansoddi ymatebion ymgynghori ddangos cydymffurfedd lefel uchel â chanllawiau diogelu data a seiberddiogelwch Llywodraeth yr Alban. Bydd unrhyw gomisiynau sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial yn mynd trwy gamau Llywodraeth yr Alban ar gyfer diwydrwydd dyladwy yn ymwneud â deallusrwydd artiffisial.

**Eich hawliau**

Yn seiliedig ar y prosesu cyfreithlon uchod, mae gennych yr hawliau unigol canlynol:

- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gael mynediad

- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau yn gysylltiedig â gwneud penderfyniadau awtomataidd a phroffilio

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau unigol o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig (GDPR y Deyrnas Unedig) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018), ar gael yma.

**Cwynion**

Mae gennych yr hawl i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth unrhyw bryd.

**Siarter gwybodaeth bersonol**

Mae ein siarter gwybodaeth bersonol yn esbonio mwy am eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol.

# Hyd yr ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am 16 wythnos, gan gau am 23:59 ar 11 Mawrth 2026. Mae'n rhaid derbyn ymatebion erbyn 23:59 ar 11 Mawrth 2026. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn crynhoi'r ymatebion ac yn gosod y crynodeb ar dudalen we FMPau Llywodraeth yr Alban.

# Camau nesaf y broses

Pan fydd ymatebwyr wedi rhoi caniatâd i'w hymateb fod yn gyhoeddus, ac ar ôl i ni wirio nad ydynt yn cynnwys unrhyw ddeunydd a allai fod yn ddifenwol, bydd yr ymatebion ar gael i'r cyhoedd yn Citizen Space. Os byddwch yn defnyddio'r hyb ymgynghori i ymateb, byddwch yn cael copi o'ch ymateb trwy e-bost. Ar ôl y dyddiad cau, bydd yr holl ymatebion yn cael eu dadansoddi a'u hystyried ynghyd ag unrhyw dystiolaeth arall sydd ar gael. Byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion os rhoddwyd caniatâd i ni wneud hynny. Bydd adroddiad dadansoddi ar gael, hefyd.

# Sylwadau a chwynion

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar sut y cynhaliwyd yr ymarfer ymgynghori hwn, anfonwch nhw at y cyfeiriad cyswllt uchod neu anfonwch neges e-bost at FMPs@gov.scot

Os oes gennych unrhyw ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â'r canlynol: FMPs@gov.scot

# Proses ymgynghori Llywodraeth yr Alban

**Proses ymgynghori Llywodraeth yr Alban**
Mae ymgynghori'n rhan hanfodol o'r broses llunio polisi. Mae'n rhoi cyfle i ni ystyried eich safbwynt a'ch arbenigedd ar faes gwaith arfaethedig.

Mae ein holl ymgynghoriadau ar gael ar-lein: Citizen Space. Mae pob ymgynghoriad yn rhoi manylion y materion sy'n cael eu hystyried, yn ogystal â ffordd i chi roi eich safbwyntiau i ni, naill ai ar-lein, trwy e-bost neu drwy'r post.

Bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi a'u defnyddio yn rhan o'r broses benderfynu, ynghyd ag ystod o wybodaeth a thystiolaeth arall sydd ar gael. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar y dadansoddiad hwn ar gyfer pob ymgynghoriad. Yn dibynnu ar natur yr ymarfer ymgynghori, fe allai'r ymatebion a dderbynnir:

- nodi'r angen am ddatblygu neu adolygu polisi
- llywio datblygiad polisi penodol

- helpu i benderfynu rhwng gwahanol gynigion polisi
- cael eu defnyddio i gwblhau deddfwriaeth yn derfynol cyn ei gweithredu

Er bod manylion amgylchiadau penodol a ddisgrifir mewn ymateb i ymarfer ymgynghori yn gallu bod yn ddefnyddiol wrth lywio’r broses polisi, ni all ymarferion ymgynghori fynd i’r afael â phryderon a sylwadau unigol, y dylid eu cyfeirio at y corff cyhoeddus perthnasol.